

# GWASANAETHAU ADDYSG

## Rhybudd Cosb Benodol

Am absenoldeb heb awdurdod o'r ysgol



# GWASANAETHAU ADDYSG



**0 dan 92%**

- Colli mwy na 3 wythnos o addysg.

**95%**

- Colli mewn gwirionedd pythefnos o addysg.

**100%**

- Ddim yn colli unrhyw wersi yn ystod amser tymor.

“Mae presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd yn yr ysgol yn ofyniad hanfodol ar gyfer dysgu llwyddiannus o'r adeg y bydd plentyn yn dechrau'r ysgol”.

# Ym mis Medi 2014 cyflwynodd Cymru hysbysiad cosb benodedig a dirwyon ar gyfer rhieni y mae eu plant yn cael mwy na 5 diwrnod o absenoldeb heb awdurdod.

Gellir rhoi hysbysiad ar gyfer unrhyw absenoldeb heb awdurdod gan yr ysgol, gan gynnwys gwyliau.

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn rhoi'r hysbysiadau hyn pan fynegir pryderon gan yr ysgol neu gan yr heddlu.


Mae'r ddirwy yn **£120** oni bai y telir o fewn 28 diwrnod pan fydd yn **£60**.

## GWYLIAU

Fel cyfanswm, mae **175** o ddiwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau ysgol y flwyddyn.

Mae hyn yn rhoi'r cyfle i deuluoedd:

- Treulio amser gyda'i gilydd
- Mynd ar ymweliadau teuluol a diwrnodau allan
- Mynd ar wyliau
- Mynd i siopa
- Mynychu apwyntiadau rheolaidd



Dim ond pennaeth yr ysgol all gymeradwyo gwyliau yn ystod y tymor ac ni chaniateir i fyfyrwyr gael caniatâd absenoldeb heblaw bod amgylchiadau eithriadol.

Mae cymryd gwyliau yn ystod tymor yr ysgol yn gallu effeithio 'n ddifrifol ar bresenoldeb eich plentyn ac mewn amser ei gyrhaeddiad.

Os bydd gwyliau yn cael ei gymryd heb awdurdod, gall hyn arwain at Rybudd Cosb Benodedig yn cael ei roi.

Dylai presenoldeb fod yn flaenoriaeth. Os oes unrhyw broblemau, cysylltwch â'r ysgol yn syth.



## FFEITHIAU PRESENOLDEB

Os yw eich plentyn yn mynychu ysgol **100%** byddent yn gallu gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Mae plentyn sydd â phresenoldeb da yn debygol o ennill 5 TGAU neu fwy neu gymwysterau cyfatebol.

- 91.1% presenoldeb = colli 17 diwrnod o ysgol mewn blwyddyn
- Mae colli 17 diwrnod y flwyddyn hefyd yn golygu gollwng 1 gradd TGAU (ar gyfartaledd)
- Mae plant sydd â phresenoldeb gwael yn llai tebygol o gael 5 A\* - C TGAU
- 82.1% presenoldeb = colli 34 diwrnod o ysgol mewn blwyddyn

Bydd presenoldeb gwael yn cael effaith difrifol ar addysg, gwaith a dewisiadau bywyd.

Bydd disgybl sy'n gorffen blwyddyn ysgol ar bresenoldeb o **90%** wedi colli pedair wythnos gyfan o'r ysgol.

**90%** dros 5 mlynedd o ysgol uwchradd yn hafal i hanner blwyddyn ysgol.



### GOLAU COCH

Colled ddifrifol o ddysgu sydd yn debygol o gael effaith niweidiol ar Gyflawniad a Dewisiadau Bywyd eich plentyn



### GOLAU MELYN

Yn absennol o'r dosbarth hyd at dair wythnos ac wedi colli swm arwyddocaol o addysg



### GOLAU GWYRDD

Yn bresennol ar gyfer pob gwers, gweithgaredd ac amser hamdden

Lle bo hynny'n bosib, dylech wneud apwyntiadau meddygol a deintyddol tu allan i oriau Ysgol



## Y GYFRAITH

**Mae'r Ddeddf Addysg 1996** yn gofyn i rieni sicrhau fod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg llawn amser effeithlon.

Mae'r gyfraith yn dweud bod rhieni / gofalyddion, lle mae eu plant o oedran ysgol orfodol yn absennol o'r ysgol heb reswm da, yn cyflawni trosedd.

Gall yr Awdurdod Lleol rhoi hysbysiad cosb benodedig am absenoldeb heb awdurdod eich plentyn o'r ysgol.

Gall hysbysiad cosb benodedig gael ei roi i ddisgybl sydd wedi bod yn absennol am 10 sesiwn hanner diwrnod heb awdurdod o'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys absenoldeb gwyliau a bod yn hwyr yn gyson.

Os telir o fewn 28 diwrnod, y ddirwy yw **£60**. Os telir ar ôl 28 diwrnod, ond o fewn 42 diwrnod, bydd y ddirwy yn codi i **£120**. Os nad yw'r ddirwy yn cael ei thalu yn llawn erbyn diwrnod 43, bydd hyn yn arwain at weithrediad cyfreithiol.

Mae angen i chi fod yn ymwybodol, er y gallech roi rheswm dros absenoldeb, mai'r ysgol sy'n penderfynu os yw'r absenoldeb yn cael ei gofnodi fel un ag awdurdod neu un heb awdurdod.

Os ydych eisiau trafod y mater, cysylltwch â'r ysgol.



## TALIAD

Bydd trefniadau ar gyfer talu yn cael eu manylu am yr hysbysiad cosb a Gwefan Cyngor Dinas Casnewydd.

Bydd peidio â thalu hysbysiad cosb yn achosi erlyniad o dan Adran 44 o Ddeddf Addysg 1996.

Bydd manylion pellach ar gael yng Nghod Ymddygiad Consortiwm De Ddwyrain Cymru.

Os ydych yn poeni nad yw eich plentyn wedi mynychu'r ysgol, ffoniwch yr ysgol yn syth.

Os oes gennych UNRHYW bryderon am bresenoldeb ysgol, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol lle mae eich plentyn wedi cofrestru

Gallwch hefyd gysylltu â'r Gwasanaeth Lles Addysg ar **01633 656656**.

Os oes angen gwybodaeth arnoch, cysylltwch â'ch Pennaeth neu'r Gwasanaeth Lles Addysg ar **01633 656656** neu'r cyfeiriad canlynol:  
**Cyngor Sir Casnewydd, Yr Orsaf Wybodaeth, Civic Centre, Casnewydd, NP20 4UR**

